envirowise

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Public Sector Waste Minimisation Campaign
Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus
Towards Zero Waste Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Croeso i rifyn olaf cylchlythyr Ymgyrch Lleihau Gwastraff yn y Sector Cyhoeddus (PSWMC). Mae'r rhifyn hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Sector sy'n cefnogi'r Strategaeth Wastraff - Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae hefyd yn dangos pa effaith y mae'r ymgyrch wedi'i chael yn 2010/11 ac ers 2008. Hefyd, ceir gwybodaeth am ba gymorth pellach sydd ar gael.

Cynlluniau Sector Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Rhan allweddol o strategaeth wastraff Cymru yw cyhoeddi cynlluniau sector sy'n rhoi manylion y camau gweithredu sydd i'w cymryd gan y sector penodol, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i gyflawni canlyniadau, targedau a pholisïau Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

Ymgynghorir ar amrywiaeth o gynlluniau sector yn 2011. Mae gan y sector cyhoeddus rôl i'w chwarae ym mhob un o'r cynlluniau sector a llunnir cynllun sector penodol ar gyfer y sector cyhoeddus hefyd. Gellir gweld y cynlluniau sector yma. Ymgynghorwyd ar y cynllun sector cyntaf ar wastraff trefol (cartref) yn 2010 ac mae bellach wedi'i gyhoeddi: Municipal Sector Plan part 1 ynghyd a'r ymgynghoriad ar Gasgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, cadwch lygad am y dogfennau ymgynghori ar Weithgynhyrchu Bwyd, Gwasanaethau a Manwerthu a gyhoeddir yn fuan.

Mae'r cynllun sector ar gyfer dogfen ymgynghori'r sector cyhoeddus wrthi'n cael ei ddatblygu. Cynhaliwyd cyfarfodydd ag amrywiaeth o randdeiliaid yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys caffael cynaliadwy, lleihau gwastraff bwyd, newid ymddygiad, mesur, monitro a thargedau a lleihau gwastraff clinigol. Os hoffech wneud sylw ar y ddogfen, cysylltwch â Liz Franks i drafod y dulliau sydd ar gael.

Ffarwel i PSWMC

Mae Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus wedi bod yn helpu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i roi cynlluniau gweithredu lleihau gwastraff ar waith ers 2002. Bydd yr help presennol a roddir yn dod i ben erbyn 31ain Mawrth 2011.Diffinnir gweithgareddau'r dyfodol yng nghynllun Sector Tuag at Ddyfodol Diwastraff y sector cyhoeddus, yr ymgynghorir arno ddiwedd 2011. Mae'r cynllun Sector yn adeiladu ar y gwaith da a welwyd gan yr amrywiaeth eang o sefydliadau sydd wedi gweithio gyda'r ymgyrch i leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

Ers 2008 mae'r Ymgyrch wedi nodi dros 20 o sefydliadau sydd wedi gosod esiampl ac mae wedi ariannu dros 140 o brosiectau effeithlonrwydd adnoddau. Dywed dros 80% o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru eu bod naill ai wedi cwblhau, neu eu bod wrthi'n gwneud gwelliannau i'r broses o reoli gwastraff, gan gynnwys cyflwyno cynlluniau ailgylchu newydd, gweithredu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a mentrau lleihau gwastraff.

Mae'r gweithgareddau Ymgyrchu hyn wedi arwain at ddargyfeirio 1700 o dunelli o wastraff o flwyddyn i flwyddyn ar hyn o bryd, ac mae'r potensial i ddargyfeirio 3700 o dunelli ychwanegol o wastraff bob blwyddyn wedi'i nodi.

Os hoffech wneud gwahaniaeth o hyd, beth am ystyried cymryd rhan yn yr ymgyrch Mae Pob Can yn Cyfrif neu Recycle Zone neu ddod yn Eco-Sgol gyda Baner Werdd neu'n sefydliad sydd wedi'i ardystio gan y Ddraig Werdd - ceir rhagor o wybodaeth am yr ymgyrchoedd hyn dros y dudalen.

envirowise

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Public Sector Waste Minimisation Campaign
Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus
Towards Zero Waste Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Mae Pob Can yn Cyfrif Eto

Mae'r Ymgyrch wedi bod yn gweithio gyda Mae Pob Can yn Cyfrif dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Gyda'i gilydd, mae sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi osgoi anfon bron i 15 o dunelli o ganiau i safleoedd tirlenwi.

Gall Mae Pob Can yn Cyfrif roi cymorth gweithredol i'ch sefydliad neu os ydych am fynd ati ar eich pen eich hun, beth am archebu eich pecyn cychwynnol Mae Pob Can yn Cyfrif? Os hoffech gael gwybod sut mae un o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi arwain y blaen, beth am ddarllen amdanynt ar wefan Mae Pob Can yn Cyfrif a gweld a ydych yn barod am yr her hefyd.

Gwyrdd yw'r Coch Newydd

Mae'r Ddraig Werdd yn Safon haenog sy'n cydnabod prosesau rheoli amgylcheddol effeithiol. O fewn Safon y Ddraig Werdd ceir pum lefel, gyda phob cam yn cyfrannu tuag at gyrraedd safonau amgylcheddol Rhyngwladol ac Ewropeaidd ISO 14001 ac EMAS. Coleg Glannau Dyfrdwy oedd y sefydliad addysgol cyntaf yng Nghymru i gyflawni lefel 5 y Ddraig Werdd yn 2006 ac mae'n parhau i fod yn un o lond llaw o sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n cyflawni'r lefel hon. Ymhlith y sefydliadau eraill sydd wedi gosod esiampl ac sy'n gwneud eu rhan mae Coleg Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol, Dinas a Sir Abertawe - Corfforaethol - Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Tŷ Hywel, Y Senedd, Adeilad Pierhead), Cyngor Sir Powys, Llywodraeth Cynulliad Cymru - Gweithrediadau Gweinyddol, Ystadau a Busnes a Chyngor Bro Morgannwg (Gwasanaethau Gweladwy). Os ydych o'r farn eich bod yn ddigon da, beth am ymuno â'r grŵp hwn o arweinwyr amgylcheddol a siarad â Groundwork Cymru.

Ailgylchu ym Mhob Man

Nod Recycle Zone yw ei gwneud hi'n hawdd ailgylchu ym mhob man. Nod Recycle Zone yw helpu sefydliadau sydd â mannau cyhoeddus a gaiff lawer o ymwelwyr, fel llyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac amgueddfeydd, i sefydlu seilwaith i wella cyfraddau ailgylchu - yn enwedig ailgylchu caniau a photeli plastig. Drwy'r PSWMC, daeth Sain Ffagan un o brif amgueddfeydd awyr agored Ewrop ac atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru, yn rhan o ymgyrch Recycle Zone ddiwedd 2009. Gosodwyd unedau ailgylchu newydd ym mis Chwefror 2010. Rhwng mis Mawrth 2010 a mis Ionawr 2011, casglwyd 1.6 tunnell o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a'u dargyfeirio o safleoedd tirlenwi ac mae'r gwaith da yn parhau. Felly beth am edrych i weld sut y gall eich sefydliad gefnogi gweithgarwch ailgylchu ym mhob man ar eich safle a'ch helpu chi i arbed arian a gwneud eich rhan dros Gymru.

Y Faner Werdd i Lwyddiant

Mae'r rhaglen Eco-Sgolion yn fenter ryngwladol sy'n annog disgyblion i ymwneud â materion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy. Mae Baner Werdd Ryngwladol Eco-Sgolion, a wobrwyir i ysgolion sy'n cyflawni lefelau uchel yn eu rhaglen, yn eco-label gydnabyddedig a gaiff ei pharchu ar gyfer perfformiad ym maes Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Ar hyn o bryd mae dros 90% o ysgolion yng Nghymru yn dilyn y rhaglen Eco-Sgolion ond dim ond tua 235 o ysgolion sydd â statws baner werdd. Os credwch eich bod yn barod am yr her, beth am wneud cais i gael Baner Werdd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr help sydd ar gael i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i leihau gwastraff, e-bostiwch Elizabeth.franks@environment-agency.wales.gov.uk